



## Neges Heddwch ac Ewyllys Da gan leuenctid Cymru i leuenctid y Byd.



**Afghanistan. Awryglch o ofn, bomiau a thensiwn nerfus. A allwn ni ddianc?**

**Cymdeithas yn gormesu. Anhrefn yn teyrnasu. Anghyfiawnder yn trechu. A**

**allwn ni dorri'n rhydd? Byw mewn perygl. Ffrwydron tir. Herwgipio.**

**Llygredigaeth. Rhaid i ni roi terfyn ar hyn nawr. Ein byd ni yw hwn.**

Mae gan bobl Afghanistan hawl i fyw eu bywydau mewn heddwch fel pobl ifanc Cymru. Mae mwy i Afghanistan na rhyfel; nid yw bywyd yn ddrwg i gyd yno. Mae gan y bobl freuddwydion. Mae menywod yn ymladd dros eu hawliau. Mae mwy o bobl ifanc yn cael addysg nag erioed. Diogelwn y diniwed a rhown derfyn ar ragfarn.

Ein byd ni yw hwn.

Ein cenhedlaeth ni yw'r dyfodol. Mae angen i arweinwyr y byd gyfathrebu'n well er mwyn sicrhau heddwch byd-eang. Mae rhyfel yn mynd yn erbyn hawliau dynol ac rydym yn mynnu bod gan bawb hawl i ryddid. Gwerthfawrogwn y gwahaniaethau rhwng pobl a'i gilydd a pharchwn ein gilydd. Ein byd ni yw hwn. Gadewch i ni uno mewn heddwch.

Lluniwyd gan ddisgyblion ysgolion Uwchradd Bryntawe a Llandeilo Ferwallt,

Abertawe